**Cross Party Group for North Wales**
**Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**

# Hysbysiad i'r Wasg

***Mae Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru wedi sefydlu grŵp trawsbleidiol i roi llais unedig i ddilyn buddsoddiadau strategol mawr yng Ngogledd Cymru gan Lywodraethau Cymru a'r DU.***

Mae'r Grŵp wedi ethol swyddogion o'r prif bleidiau yn y rhanbarth: -

- Llyr Gruffydd AM (Plaid Cymru) Cadeirydd
- Ann Jones AM (Llafur) Is-Gadeirydd
- Mark Isherwood (Ceidwadwyr) Is-Gadeirydd

Mae'r grŵp wedi'i noddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n darparu gwasanaethau cefnogaeth weinyddol drwy ei gydlynydd rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru.

***Dywedodd Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd:***

"Mae Aelodau Cynulliad Gogledd Cymru wedi cytuno i gydweithio ar sail trawsbleidiol ar gyfer rhai o'r buddsoddiadau strategol mawr fydd yn gwneud bywyd yn well yng Ngogledd Cymru. Bydd y Grŵp yn ymgyrchu ar gyfer gwelliannau i seilwaith y rhanbarth fel yr A55 a gwell cysylltedd i ardaloedd gwledig.

Byddwn yn cefnogi Cynnig Twf Gogledd Cymru a baratoir gan chwe Chyngor y rhanbarth mewn partneriaeth gyda'r sector preifat, Colegau Addysg Bellach a Phrifysgolion yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Grŵp eisoes wedi cwrdd â chynrychiolwyr o Growth Track 360 ac wedi clywed am y blaenoriaethau rheilffordd rydym angen eu cefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys gwell cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de, gwasanaethau gwell i Ogledd Cymru drwy adnewyddu masnachfraint rheilffyrdd Arfordir y Gorllewin a gwell mynediad o Ogledd Cymru i Fanceinion a Lerpwl, a gyflawnir yn rhannol drwy'r masnachfraint rheilffyrdd newydd ar gyfer Cymru.

Byddwn yn: -

- Cefnogi'r cysylltiadau gwell rhwng Gogledd a De Cymru
- Ymgyrchu ar gyfer canolbwynt HS2 yn Crewe fydd yn cynnal ac yn gwella'r cysylltedd o Ogledd Cymru i Lundain.
- Cefnogi Llywodraeth Cymru i gael rhan deg o fuddsoddiad seilwaith rheilffordd gan Lywodraeth y DU,

Bydd y Grŵp yn cynnal Digwyddiad Lansio yng Ngogledd Cymru ddydd Gwener, 22 Mehefin 2018.

## *Dywedodd Ann Jones AC, Is-Gadeirydd*

Bydd y Grŵp yn cefnogi Gweinidogion sy'n cynnig buddsoddiadau strategol yng Ngogledd Cymru. Dyna pam fy mod yn hapus iawn fod Ken Skates AC wedi briffio'r grŵp ar y cyfleoedd i dwf economaidd yng Ngogledd Cymru gael ei ddwyn ymlaen gan ei Adran Economi a Thrafnidiaeth.

Byddaf yn hybu'r cyfleoedd ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru o wella cydweithrediad trawsffiniol ar ddatblygiad economaidd a chynllunio yn naearyddiaeth Mersi a'r Ddyfrdwy.  Mae daearyddiaeth Mersi a'r Ddyfrdwy yn un ardal economaidd sy'n rhannu cyflogwyr a gweithleoedd.  Mae'r gefnogaeth fusnes, hyfforddiant ac isadeiledd trafnidiaeth sy'n gwasanaethu'r ardal trawsffiniol yn dameidiog oherwydd ffiniau gweinyddu.  Bydd cydweithio trawsffiniol yn ysgogi twf economaidd.

## *Dywedodd Mark Isherwood, Is-Gadeirydd:*

Rwyf eisiau gweld Gogledd Cymru yn rhannu manteision twf economaidd yng Nghymru a'r DU. Rydym angen cydweithio i ddod â ffyniant a thwf i bob rhan o'r rhanbarth. Bydd cefnogi'r Cynnig Twf a dod â buddsoddiad sylweddol o gronfa ffyniant a rennir arfaethedig y DU yn brif flaenoriaeth i'r Grŵp.

Byddaf yn gweithio'n galed o fewn y Grŵp i hybu sut y gall y Llywodraeth gefnogi'r sector preifat yn well a thwf y sector busnesau bach a chanolig yng Ngogledd Cymru.

Diwedd

# Nodiadau i Olygyddion

Bydd Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn cwrdd 1pm – 2.30pm, dydd Gwener, 22 Mehefin 2018 yn Ystafell Gynadledda ar y Llawr Gwaelod, Canolfan Optic Glyndŵr, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, LL17 OJD

## Siaradwyr

Bydd y canlynol yn annerch y digwyddiad: -

- Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru ar y cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad strategol a datblygiad economaidd ar sail lleoliad y dylai Gogledd Cymru ei gymryd
- Ian Lucas AC, Cadeirydd Grŵp Seneddol Pob Plaid Mersi Dyfrdwy a Gogledd Cymru yn San Steffan, ar yr hyn y gall Grŵp y Cynulliad ei ddysgu o waith Grŵp Seneddol Pob Plaid San Steffan.
- Cynghorydd Aaron Shotton, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gynnydd a dyheadau Cynnig Twf Gogledd Cymru

**Cyswllt**

Cefnogir y digwyddiad gan Martin Williams Radar PR, rhif cyswllt 07743 252658

| | |
|---|---|
| Llyr Gruffydd, AC | 01824 703593 |
| Ann Jones AC | 01745 332813 |
| Mark Isherwood | 01352 714074 |